# All-Wales Diabetes Review
# CPG Inquiry

Efo Datganiad Ansawdd Diabetes ar fin digwydd, cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes ar 18 Ionawr 2023 i gynnal ymchwiliad i'r gofal diabetes presennol yng Nghymru. Fydd yr ymchwiliad yn bwydo i mewn i adroddiad i gyflawni ar Ddiwrnod Diabetes y Byd, Tachwedd 14eg 2023.

Bydd yr ymchwiliad yn edrych ar statws gofal yng Nghymru drwy gasglu data a thystiolaeth a gyflwynir iddo gan ei aelodau yn ogystal â gwahodd cyfranogwyr i gefnogi'r ymchwiliad. Nod yr ymchwiliad fydd casglu dystiolaeth mewn adroddiad i hwyluso rhannu arferion gorau a nodi meysydd sy'n bryder ar gyfer gofal diabetes yng Nghymru.

**Yn benodol, bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ystyried:**

Y wybodaeth sydd ar gael am lefelau gwasanaethau diabetes a gofal yng Nghymru.

- Pa effaith y mae pwysau gweithlu yn ei chael ar wasanaethau diabetes yng Nghymru.
- Arolygon profiadau cleifion a gynhaliwyd gan Ddiabetes UK Cymru fel rhan o'r ymgyrch 'Mae Diabetes o ddifrif'.
- Y gefnogaeth a gynigir i bobl sy'n byw gyda diabetes i fyw gyda'r pwysau sy'n gysylltiedig â diabetes yng Nghymru. Gall pwysau o'r fath gynnwys diagnosis cychwynnol, iechyd meddwl, addysg, a materion yn ymwneud â'r gweithle, ond nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.
- Rhwystrau a brofir gan bobl sy'n byw gyda diabetes i gael y siawns i gael y Dechnoleg i'w cefnogi gyda'i diabetes.
- Y nifer o achosion ordewdra sy'n gysylltiedig â'n systemau bwyd presennol a diagnosis o ddiabetes math 2 a'r effaith y mae'n ei chael ar y GIG nawr ac yn y dyfodol.
- Effaith a chyflwyniad Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan.
- Effaith a chyflwyniad Gwasanaethau Atal Diabetes math 2 yng Nghymru.
- Y cynllunio a'r flaenoriaeth ar gyfer gofal diabetes yn y dyfodol yng Nghymru.

**Casglu Tystiolaeth**

Rydym eisiau sicrhau bod ein gwaith yn cael ei chefnogi gan brofiadau, anghenion, a safbwyntiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl a'r cymunedau y mae diabetes yn effeithio arnynt. Rydym, felly, yn croesawu tystiolaeth allanol yn ogystal â mewnol i aelodaeth y Grŵp Trawsbleidiol.

Bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn cyfarfod deirgwaith yn ystod 2023 am 12:15 – 13:15 ar:

- 26 Ebrill 2023 Ystafell Gynadledda C a D, Llawr 1af, Tŷ Hywel (Hybrid).
- 28 Mehefin 2023 Ystafell Gynadledda C a D, Llawr 1af, Tŷ Hywel (Hybrid).
- 27 Medi 2023 – Ystafelloedd Seminar 1 a 2 Adeilad y Pierhead. (Hybrid)

Rydym yn croesawu eich syniadau a'ch safbwyntiau i'r ymgynghoriad isod; bydd yr ymchwiliad ar agor tan 27 Medi, 2023, gydag adroddiad yn cael ei rannu ar Ddiwrnod Diabetes y Byd ar Dachwedd 14eg 2023.

# Eich Ymateb

Rydym yn croesawu eich barn a'ch tystiolaeth i gefnogi ein hymchwiliad.  Does yna ddim gwahaniaeth os rydach eisiau wneud sylwadau ehangach ar y cylch gorchwyl uchod neu yn dymuno ymateb yn benodol i un neu gwestiwn neu bob un ohonynt, rydym yn croesawu eich cyfraniad. Enwedig os dymuno rhannu ymchwil/adroddiad y gellir ei gyflwyno i'r grŵp.

Gofynnwn gydag eich ymatebion, os gallwch rannu ychydig o wybodaeth amdanoch chi'ch hun. Rhannwch os ydych yn ymateb naill ai fel eich hun neu fel person sy'n byw gyda neu'n gofalu am rywun â diabetes, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, cynrychiolydd sefydliad, elusen, gwleidydd neu rywun arall:

---

**Cwestiynau:**

1. Pa effaith, os o gwbl, mae pwysau presennol y gweithlu yn ei chael ar ofal diabetes yng Nghymru?

2. Mae diabetes yn ddi-baid; rhannwch eich profiadau o'r gefnogaeth gyfredol (neu ddiffyg cefnogaeth) sydd ar gael ac a ddarperir i bobl sy'n byw gyda diabetes (Gofal Sylfaenol/Eilaidd/Ystafell Ddosbarth ac ati).

3. Mae technoleg yn newid sut mae pobl sy'n byw gyda diabetes yn byw eu bywydau; rhannwch eich profiadau o gael mynediad at dechnoleg i gefnogi (eich) diabetes yng Nghymru.

4. Gordewdra yw un o brif achosion diabetes; beth yw effaith mesurau cyfredol Llywodraeth Cymru / Bwrdd Iechyd i leihau lefelau gordewdra yng Nghymru? Ydyn nhw'n gweithio? Beth arall sydd angen ei wneud i leihau lefelau gordewdra yng Nghymru?

5. A ydym ni yng Nghymru yn darparu gofal digonol i bobl â diabetes? Os felly, rhannwch eich enghreifftiau cadarnhaol. Os na, amlygwch feysydd sydd angen eu gwella.

6. Yn eich barn chi, pa mor wybodus yw'r cyhoedd am ddiabetes a'i effaith? Rhannwch enghreifftiau lle mae gwybodaeth gyhoeddus wedi'i darparu'n dda neu lle mae angen gwneud mwy i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r cyflwr.

**Ymateb:**

E-bostiwch eich ymateb mewn Dogfen Word neu PDF i Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes, Mathew Norman, Dirprwy Gyfarwyddwr Diabetes UK Cymru: Mathew.norman@diabetes.org.uk - Os hoffech ragor o wybodaeth neu os hoffech drafod yr ymholiad pellach, cysylltwch â Mathew ar: 07590 225 328